# HYFFORDDAI THERAPI DEINTYDDOL SYLFAENOL CYMRU

## PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Clinigol a Phroffesiynol

**Triniaeth glinigol**

- Trin oedolion a phlant yn y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol (a lleoliadau eraill o bosibl fel y cytunwyd).
- Cyflawni cynlluniau triniaeth rhagnodedig; asesu, gweithredu a gwerthuso gofal clinigol cleifion, gweithio o fewn protocolau a gweithdrefnau practis a dilyn canllawiau proffesiynol.
- Darparu addysg iechyd y geg.
- Darparu ymyriadau byr a chefnogaeth i newid ymddygiad ynglŷn a ffordd o fyw.
- Gweithredu offer deintyddol cymryd a phrosesu radiograffau.

**Gweithdrefnau penodol i Therapi Deintyddol**

Archwiliadau o fewn y cwmpas, monitro a chofnodi clefydau, tynnu plac mecanyddol proffesiynol, rhoi fflworid argroenol a selyddion rhychau , adfer dannedd cyntaf a pharhaol, therapïau sianel y gwreiddyn mewn dannedd cynradd, gosod coronau metel wedi'u ffurfio ymlaen llaw, rhoi poenliniaredd ymdreiddio lleol a blocio nerfau, tynnu dannedd cynradd, trin argyfyngau – ailosod llenwadau a choronau dros dro, cymryd argraffiadau, cymryd a phrosesu radiograffau.

Rhaid i therapydd deintyddol sylfaenol:

- Cynnal sylfaen wybodaeth briodol a'r gallu i gymhwyso barn glinigol gadarn i broblemau.
- Cymhwyso gwybodaeth glinigol a blaenoriaethu anghenion clinigol.
- Deall rheoli risg glinigol.
- Dangos meddwl rhesymegol clir, gyda dull dadansoddol a dealltwriaeth o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Dangos menter/cymhelliant /brwdfrydedd ( annibyniaeth, dangos chwilfrydedd, menter) ac ymwybyddiaeth o'ch cyfyngiadau eich hun.

### Cyfathrebu

- Cynnal cofnodion priodol gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r systemau cadw cofnodion cytunedig ar gyfer y practis hyfforddi.
- Cael caniatâd gwybodus lle bo'n briodol a'i ddogfennu yn unol â gweithdrefnau'r practis.
- Cael gwybodaeth bersonol, gymdeithasol a meddygol sensitif gan gleifion.

Rhaid i therapydd deintyddol sylfaenol:

- Ystyried safbwyntiau pobl eraill a thrin eraill â dealltwriaeth.
- Ymdrin â materion personol a godir gan gleifion a chydweithwyr yn dosturiol.
- Ymdrin â chleifion sydd ag anghenion gwahanol yn effeithiol

### Gwybodaeth, addysg a hyfforddiant

**Arweinyddiaeth**

- Darparu arweinyddiaeth i'r tîm uniongyrchol, gan gynnwys y nyrs ddeintyddol, y derbynnydd ac aelodau eraill o'r tîm.
- Gweithio'n effeithiol gydag eraill a deall pwysigrwydd gweithio mewn timau.

**Hyrwyddo Iechyd y Geg**

- Darparu addysg iechyd y geg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd y geg cleifion.

**DPP**

- Cydymffurfio â threfniadau ar gyfer hyfforddiant gorfodol/hanfodol a DPP.
- Cymryd cyfrifoldeb am DPP i fodloni gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Cynnal gwybodaeth a sgiliau TG cyfredol.
- Mynychu pob diwrnod astudio WDTFT.

Cwblhau portffolio electronig, gan gynnwys yr holl ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, asesiadau a myfyrdodau gofynnol.

**Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb**

- Cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hun ac ymateb yn briodol i feirniadaeth adeiladol a chyngor a roddir gan eraill i gynorthwyo eich datblygiad.
- Dangos parch at bawb.
- Dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd rhoi anghenion cleifion yn gyntaf.
- Gweithio yn unol â'r polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau Iechyd a Diogelwch perthnasol.
- Sicrhau eich bod wedi'ch hyfforddi a'ch bod yn gymwys i ddefnyddio offer yn ddiogel.
- Nodi problemau iechyd a diogelwch posibl a chydweithio ag eraill i hyrwyddo a chynnal amgylchedd sy'n cefnogi polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.
- Hyrwyddo diwylliant sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth, a chefnogi cleifion, ymwelwyr a staff i arfer eu hawliau.

**Gofynion Cyffredinol**

- Dilyn polisïau a gweithdrefnau bob amser.
- Diogelu plant ac oedolion, a chynnal hyfforddiant priodol yn hyn o beth.
- Rheoli/blaenoriaethu amser a gwybodaeth yn effeithiol.
- Bod yn brydlon a chwrdd â therfynau amser.
- Cydymffurfio â pholisi'r practis ar gyfrinachedd a Deddf Diogelu Data 2018, sy'n ymwneud â gwybodaeth a gedwir â llaw neu ar systemau cyfrifiadurol.
- Parchu cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion, eu teuluoedd a staff bob amser.
- Cynnal ymwybyddiaeth gyson o faterion iechyd, lles a diogelwch sy'n effeithio ar gydweithwyr, cleifion, ymwelwyr a nhw eu hunain, gan adrodd am unrhyw ddamweiniau neu nam yn unol â pholisi'r practis.
- Cymryd rhan lawn mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant personol, datblygiad, arfarniad, a mynychu pob cwrs hyfforddi perthnasol yn ôl yr angen.

| MEINI PRAWF HANFODOL | PAN GAIFF EI WERTHUSO |
|---|---|
| **Cymwysterau a Chofrestriad gyda Chorff Rheoleiddio** | |
| **Rhaid i ymgeiswyr gael:** | **Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio** |
| • Cymhwyster cydnabyddedig mewn Therapi Deintyddol (a elwir hefyd yn Wyddor Iechyd y Geg neu Wyddorau Deintyddol y Geg) o fewn y 24 mis diwethaf a bod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel Therapydd Deintyddol.<br>Neu<br>Wedi cofrestru mewn Sefydliad Addysg Uwch cydnabyddedig yn y DU, yn eu blwyddyn olaf o astudio, ar gyfer cymhwyster yn yr uchod, a bod yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Ffurflen gais |
| **Cymhwysedd** | |
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio** |
| • Bod yn gymwys i weithio yn y DU.<br>• Gallu teithio i safleoedd yn ôl yr angen er mwyn cyflawni gofynion y rhaglen hyfforddi gyfan. | Ffurflen gais |
| **Addas i ymarfer** | |
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio** |
| • Bod yn gyfredol ac yn addas i ymarfer yn ddiogel ac yn ymwybodol o'ch anghenion hyfforddi eich hun.<br>• Cael o leiaf ddau geirda clinigol boddhaol a diweddar.<br>• Cael gwiriad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yng Nghymru a Lloegr/Access NI yng Ngogledd Iwerddon neu gyfwerth.<br>• Cael cliriad iechyd galwedigaethol. | Ffurflen gais<br><br>Gwiriadau cyn-gyflogaeth |
| **Sgiliau iaith** | |

| Rhaid i ymgeiswyr: | Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio |
|---|---|
| • Bodloni gwybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg ar gyfer gweithwyr proffesiynol deintyddol fel yr amlinellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Ffurflen gais |
| **Iechyd** | |
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio** |
| • Bodloni gofynion iechyd proffesiynol (yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol). | Gwiriadau cyn-gyflogaeth |
| **Datblygiad gyrfa** | |
| **Rhaid i ymgeiswyr:** | **Wedi dangos yn ystod y rhan hon o'r broses ymgeisio** |
| • Gallu darparu manylion llawn am addysg ddeintyddol a, lle bo'n berthnasol, hanes cyflogaeth deintyddol. | Ffurflen gais |
| **Cwblhau'r Cais** | |
| • Rhaid i BOB adran o'r ffurflen gais gael ei chwblhau'n LLAWN yn unol â'r canllawiau ysgrifenedig. | Ffurflen gais |